



HYSBYSIAD PREIFATRWYDD – ENGAGEMENT HQ

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn ymdrin â'r ffordd y bydd Cyngor Sir Penfro (fel Rheolydd Data) yn casglu, defnyddio a rhannu eich data personol at ddibenion ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid trwy Engagement HQ, sy'n system a ddarperir gan Bang the Table.

Pam ydym ni angen eich gwybodaeth (diben y prosesu)

Rydym yn casglu ac yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol er mwyn i ni allu ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid gan gynnwys staff, cwsmeriaid, cleientiaid, aelodau'r cyhoedd, paneli a grwpiau ffocws. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i fodloni ei ofynion ymgysylltu ac adrodd, a chynnal dadansoddiadau ac adrodd ar adborth, cysylltu â chyfranogwyr i adrodd ar ganlyniadau a'u gwahodd i gyfleoedd ymgysylltu yn y dyfodol. Manteision posibl hyn, i'r Cyngor, yw ei fod yn gallu arwain a chefnogi cymunedau lleol yn well gydag ystod o fentrau a gwasanaethau sy'n bodloni eu hanghenion llesiant economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

Bydd y wybodaeth a roddwch yn cael ei phrosesu yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Cydraddoldeb 2010, y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o fis Mawrth 2021, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Yn ogystal, byddwn yn gwneud unrhyw ddatgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac mae'n bosibl y byddwn hefyd yn rhannu'r wybodaeth hon â chyrrff eraill sy'n gyfrifol am ganfod/atal twyll/troseddau neu archwilio/gweinyddu arian cyhoeddus i sicrhau bod arian yn cael ei dargedu a'i wario yn y ffordd fwyaf priodol a chosteffeithiol. Er mwyn cyflawni hyn, bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda'n Gwasanaeth Archwilio o fewn Cyngor Sir Penfro a gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ni fyddwn yn gwneud unrhyw ddatgeliadau i drydydd partïon at ddibenion marchnata. Bydd eich data yn ddiogel ac yn gyfrinachol bob amser a byddwn yn casglu'r wybodaeth bersonol sy'n ofynnol at y diben hwn yn unig.

Pa ddata personol sy'n cael eu casglu?

Gwybodaeth Broffil

Rydym yn casglu gwybodaeth bersonol gennych pan rydych chi'n cofrestru i ddefnyddio'r wefan hon ac mae'n bosibl y byddwn yn casglu data categori arbennig os ydych chi'n dewis eu darparu fel rhan o'r rhaglen ymgysylltu.

Mae'r categorïau o ddata personol a gesglir fel a ganlyn:

- Enw
- Cyfeiriad e-bost

- Cod post
- Data demograffig megis dyddiad geni, rhyw, incwm

Gwybodaeth Ymgysylltu

Sef y cynnwys rydych chi'n ei greu fel rhan o ryngweithio â'r wefan hon. Gall hyn gynnwys ymatebion i arolygon, sylwadau ar fforymau trafod, neu unrhyw un o'r cyfleoedd ymgysylltu eraill sydd ar gael yma.

Gwybodaeth am Ddefnydd

Rydym yn casglu gwybodaeth am eich defnydd o'r safle, megis ymweld â thudalennau, lawrlwytho dogfennau ac ati.

Beth yw ein sail gyfreithiol dros brosesu eich data personol?

Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn ei gwneud yn ofynnol i amodau penodol gael eu bodloni i sicrhau bod prosesu eich data personol yn gyfreithlon. Mae'r amodau perthnasol hyn isod:

Erthygl 6 (1)(e) Tasg gyhoeddus: mae'r prosesu yn angenrheidiol i chi gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu at ddibenion eich swyddogaethau swyddogol, ac mae gan y dasg neu'r swyddogaeth sail glir yn y gyfraith.

Mae rhai mathau o ddata personol yn fwy sensitif nag eraill, ac mae angen mwy o ddiogelwch arnynt. Dosberthir data o'r fath fel 'data categori arbennig' a gallent gynnwys gwybodaeth am eich tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol neu aelodaeth o undeb llafur, a phrosesu data genetig neu fiometrig, a data am iechyd a bywyd rhywiol a chyfeiriadedd rhywiol.

Rydym yn prosesu data categori arbennig o'r fath am ei fod yn angenrheidiol oherwydd:

Erthygl 9 (2)(a) Rydych chi wedi rhoi eich caniatâd penodol. Gellir tynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg.

Â phwy fyddwn ni'n rhannu eich gwybodaeth?

Mae'n bosibl y bydd angen i ni rannu eich data personol ag adrannau mewnol, sefydliadau eraill a thrydydd partïon, a bydd hyn yn cynnwys:

- Bang the Table Pty Ltd (Darparwyr gwefan Engagement HQ) [Cliciwch y ddolen hon i weld y Polisi Preifatrwydd sy'n llywodraethu eu gwasanaeth.](#)

Bydd Cyngor Sir Penfro yn rheoli'r wefan a bydd mynediad i wybodaeth bersonol a sensitif (ac eithrio eich enw proffil) yn hygyrch i weithwyr Cyngor Sir Penfro yn unig. Bydd Bang the Table Pty Ltd yn defnyddio cyfeiriadau e-bost ar gyfer negeseuon e-bost gweithrediadol sy'n gwirio cofrestru ynghyd â hysbysiadau wedi'u hawtomeiddio sy'n berthnasol i ddefnyddio'r gwasanaethau. Pan rydych chi'n cytuno i fod yn rhan o weithgareddau cyfathrebu, ymgysylltu neu ymgynghori pellach, sydd wedi'u targedu at grwpiau penodol, mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich manylion cyswllt â gweithwyr eraill Cyngor Sir Penfro.

Mae'n ddyletswydd ar Gyngor Sir Penfro i ddiogelu'r gronfa gyhoeddus y mae'n ei rheoli. Felly, gellir defnyddio'r wybodaeth rydych chi wedi'i darparu i ni er mwyn atal a chanfod twyll ac at ddibenion archwilio mewnol ac allanol.

Am ba mor hir fyddwn ni'n cadw eich gwybodaeth?

Dim ond cyhyd ag y bo angen y bydd Cyngor Sir Penfro yn cadw eich gwybodaeth. Ar ôl cau'r prosiect, cedwir data am 5 mlynedd a bydd eich gwybodaeth yn cael ei gwaredu'n ddiogel pan na fydd ei hangen mwyach.

Eich Hawliau

O dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 a Deddf Diogelu Data 2018, mae gennych hawliau fel unigolyn, gan gynnwys:

- Yr hawl i gael **Cywiriad** – mae gennych yr hawl i ofyn i'ch gwybodaeth gael ei chywiro.
- Gall yr hawl i **Gyfyngu** ar brosesu fod yn berthnasol – gallwch chi wneud cais i ni roi'r gorau i brosesu eich data personol; fodd bynnag, gallai hyn achosi oedi neu ein hatal rhag darparu gwasanaeth i chi. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais, ond mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i ni gadw neu brosesu gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i **Wrthwynebu** – nid yw hon yn hawl ddiamod a bydd yn dibynnu ar y rheswm dros brosesu eich gwybodaeth bersonol.
- Yr hawl i gael **Dileu** – gallwch chi wneud cais i ni ddileu eich data personol; fodd bynnag, gallai hyn achosi oedi neu ein hatal rhag darparu gwasanaeth, neu barhau i ddarparu gwasanaeth. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais, ond mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i ni gadw neu brosesu gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i gael **Trosglwyddo data** – mae gennych yr hawl i wneud cais i drosglwyddo eich gwybodaeth heb unrhyw niwed.
- Yr hawl i beidio â bod yn destun **Penderfyniadau a phroffilio a wneir yn awtomatig**.
- Yr hawl i **Fynediad** – mae gennych yr hawl i ofyn i ni am gopiâu o'ch data personol. I wneud cais, cysylltwch â:

Mynediad i Gofnodion
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlfordd
SA61 1TP

E-bost: accesstorecords@pembrokeshire.gov.uk

Ffôn: 01437 775798

Cwynion neu Ymholiadau:

Mae Cyngor Sir Penfro yn ymdrechu i gyrraedd y safonau uchaf wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Am y rheswm hwn, rydym yn cymryd o ddifrif unrhyw gwynion a dderbyniwn am hyn. Rydym yn annog pobl i ddod â'r mater at ein sylw os ydyn nhw'n

credu ein bod yn ymddwyn yn annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol wrth gasglu neu ddefnyddio gwybodaeth.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi manylion cynhwysfawr am bob agwedd ar y ffordd rydym yn casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, rydym yn hapus i ddarparu unrhyw wybodaeth neu esboniad ychwanegol sydd ei angen. Dylid anfon unrhyw geisiadau am hyn at y cyfeiriad isod:

Jo Hendy, Swyddog Diogelu Data
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlfordd
SA61 1TP

E-bost: dataprotection@pembrokeshire.gov.uk

Ffôn: 01437 764551

Os ydych chi eisiau cwyno am y ffordd rydym wedi prosesu eich gwybodaeth bersonol, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel y corff statudol sy'n goruchwyllo cyfraith diogelu data:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
SK9 5AF

E-bost: wales@ico.org.uk

Ffôn: 0303 123 1113

Ein Manylion Cyswllt fel Rheolydd Data yw:

Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlfordd, Sir Benfro, SA61 1TP.

Ffôn: 01437 764551 neu ymholiadau@sir-benfro.gov.uk

Mae manylion ein Swyddog Diogelu Data uchod yn yr adran Gwynion neu Ymholiadau.

Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn:

Rydym yn adolygu ein hysbysiad preifatrwydd yn rheolaidd.